# TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

## CYMRAEG AIL IAITH
## (HEN FANYLEB)

**HAF 2011**

**Gwybodaeth Ystadegol**

Gall yr Adroddiadau Arholwyr gyfeirio'n gyffredinol at ganlyniadau ystadegol. Darperir gwybodaeth ystadegol ar berfformiadau ymgeiswyr yn yr holl gydrannau arholiad (pa un ai ydynt wedi'u hasesu'n fewnol neu'n allanol) pan gyhoeddir y canlyniadau. Yn ogystal â'r marciau a enillwyd gan ymgeiswyr unigol, gellir cael y wybodaeth ganlynol o'r allbrintiau hyn.

*Ar gyfer pob cydran:* y marc mwyaf, ffactor agregu, marc cymedrig a'r gwyriad marciau safonol a enillwyd gan yr *holl* ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr arholiad.

*Ar gyfer y pwnc neu'r opsiwn:* y cofrestriad cyfan a'r marc isaf sydd ei angen ar gyfer dyfarnu'r pob gradd.

***Adroddiad Ystadegol Blynyddol***

Darperir gwybodaeth arall ar sail canolfan pan gyhoeddir y canlyniadau. Mae'r *Adroddiad Ystadegol* blynyddol (a gyhoeddir yn ail ran Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol yr holl arholiadau a weinyddir gan CBAC.

**CYMRAEG AIL IAITH (HEN FANYLEB)**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**Haf 2011**

*Prif Arholwr:* Dewi Lewis, B.A.
Trefor Lewis, B.A., M.Phil.

## Y TASGAU LLAFAR (Y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr)

Gan fod dyddiau'r hen gwrs wedi dod i ben, ni fydd yr adroddiad hon mor faith ag arfer. Ail adrodd yr hyn ddywedwyd dros y blynyddoedd diwethaf fyddai adroddiad o'r fath.

### Y Cyflwyniad Unigol

Yn Cymraeg Ail Iaith cafwyd y ddau brif gategori arferol yma sef y 'cyflwyniad sgyrsiol' a'r 'cyflwyniad areithiol'. Nid oes angen ymhelaethu arnynt oherwydd gwnaethpwyd hynny'n gyson yn adroddiadau'r blynyddoedd diwethaf.

Y cyflwyniadau sgyrsiol sydd fwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda'r athrawon, ar y cyfan, yn cyfrannu'n adeiladol ac yn ddeallus yn ôl yr angen – symbyliad yn awr ac yn y man gyda'r goreuon ond ymyrraeth llawer mwy cyson wrth arholi'r gweiniaid. Mae'r cyflwyniadau sgyrsiol yma'n tueddu i fod yn llawer mwy naturiol a llai ffug na rhai o'r cyflwyniadau areithiol lle mae dibyniant gormodol ar y cof yn reit aml.

Fodd bynnag, yn y cwrs newydd, gyda mwy o bwyslais ar waith ymchwil, mae'n debygol y bydd ymgeiswyr yn ymdrechu fwyfwy i gofio mwy o ffeithiau ar gof. Cofier y gellir defnyddio'r 30 gair yn y pwyntiau bwled fel cymorth ar gyfer hyn – dyddiadau, ystadegau, enwau ac ati. Gobeithio'n fawr na fydd y naturioldeb sy'n nodweddiadol o gyflwyniadau llawer o ganolfannau, yn mynd ar goll. Safodd ymgeiswyr nifer o ganolfannau dasgau Uned 2 y cwrs newydd eleni. Ar y cyfan, roedd y cyflwyniadau'n fwy cynhwysfawr nag yn y gorffennol ac yn adlewyrchu tipyn o waith ymchwil. Ar yr un pryd rhaid nodi bod cyflwyniadau nifer o ganolfannau'n rhy fyr. Roedd mwy o ddibyniant ar y cof, yn anorfod, ond braf medru dweud i'r athrawon, ar y cyfan, barhau i gyfrannu'n adeiladol gan sicrhau bod y cyflwyniadau'n ddigon naturiol.

Cafwyd nifer o gyflwyniadau arbennig o dda – rhai ohonynt, fel arfer, yn ddigon uchelgeisiol a safonol i deilyngu'r graddau uchaf yn y famiaith – a hynny gan wir ddysgwyr. Trueni mawr hefyd bod cynifer o'r ymgeiswyr yma'n 'diflannu' ar ôl sefyll yr arholiad TGAU.

Nid eir i fanylder, ond siaradwyd yn gyffredinol am yr un testunau ag arfer, mwy neu lai – diddordebau fel chwaraeon, cerddoriaeth, nofio, marchogaeth ac ati, y ffasiwn, cyngherddau pop, siopa, bwyta'n iach ac ati. Mae siarad am yr ardal yn dal i fod yn boblogaidd o flwyddyn i flwyddyn yn y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr ill dau. Mae'n sicr bod y safonwyr allanol wedi dysgu tipyn am ddaearyddiaeth Cymru dros y blynyddoedd. Teimlwyd chwa o awel iach yn awr ac yn man wrth i ambell ganolfan fentro i feysydd newydd a sgwrsio'n ddiddorol ac yn hyderus iawn am bynciau fel 'twitter' a 'cyberfwlio'.

Cafwyd un ganolfan oedd yn ddigon mentrus ac uchelgeisiol i gynnig 'Y Palmant Aur' fel testun (nid am y tro cyntaf). Yn anffodus, dim ond cyfres o'r un cwestiynau a'r un atebion, mwy neu lai, gafwyd gan bawb (fel hefyd yn y sgwrs sefyllfa a'r ymateb llafar i ddarllen). Ni chafodd yr ymgeiswyr y cyfle i ddangos blaengaredd a'u gwir allu i sgyrsio'n rhydd ac yn naturiol. Trueni mawr, achos roedd hi'n amlwg bod ymgeiswyr galluog iawn yn eu plith. Dylid fod wedi rhoi mwy o benrhyddid iddynt yn lle eu ffrwyno gyda chyfres o gwestiynau.

Nid dyna'r unig ganolfan oedd yn euog o'r drosedd yma sef cyfyngu'r ymgeiswyr i gyfres o gwestiynau ac atebion yn y dair tasg. **Yn y gorffennol beirniadwyd tasgau llafar Cymraeg Ail laith gan gyrff allanol am mai, yn eu tyb nhw, dim ond cyfres o gwestiynau ac atebion a gafwyd ym mhob tasg. Yn anffodus, mae sampl o'r math yma, lle ceir dim ond cwestiwn, ateb, cwestiwn ateb yn y dair tasg, yn rhoi sail i'r feirniadaeth honno gan danseilio'r cyfraniadau blaengar, ymestynnol a geir gan ddisgyblion mewn llawer iawn o ganolfannau eraill.**

Nid oes llawer o resymau dros fod yn orfeirniadol ond dyma rhai o'r prif bethau y gall athrawon geisio eu gweithredu wrth baratoi ar gyfer cyflwyniadau'r cwrs newydd;

- cadw at y terfynau amser - roedd cyflwyniadau ambell ganolfan yn dal i fod yn rhy fyr, eraill braidd yn hir. Dyma rhan o adroddiad unigol un ganolfan: 'Sut yn y byd y gellir cyfiawnhau'r marciau llawn o 40 am gyflwyniadau oedd ond yn 53 eiliad a 54 eiliad, a marc o 38 am gyflwyniad o 50 eiliad? Yn wir, roedd cyflwyniadau'r 9 ymgeisydd a dderbyniwyd yn amrywio rhwng 50 eiliad a 77 eiliad (cyfanswm o lai na 9 munud ar gyfer y 9 cyflwyniad)';

- hyfforddi'r disgyblion disglair i beidio gorddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes. Dylai'r athro/athrawes gyfrannu <u>yn ôl yr angen</u>. Dylai'r athro/ athrawes geisio sicrhau nad ydynt yn gor-holi, a hefyd osgoi gofyn nifer o gwestiynau caeedig, yn arbennig gyda disgyblion yr Haen Uwch. Dyma ddyfyniad arall o adroddiad un ganolfan, eto gyda disgyblion ar farciau uchel: 'Roedd safon cyflwyniadau'r ymgeiswyr ar farc o 40 (yn ôl y ganolfan) dipyn yn is na goreuon y sylfaenol mewn nifer fawr o ganolfannau – yn bennaf oherwydd eu byrder. Hefyd, er y feirniadaeth yn adroddiad y llynedd, yr hyn gafwyd oedd cyfres o gwestiynau syml a llawer ohonynt yn gwestiynau caeedig na roddai gyfle i'r ymgeiswyr ddangos blaengaredd o gwbl. Dyma rai o'r cwestiynau ofynnwyd i bawb, ymgeiswyr y naill haen a'r llall:

  Ble est ti ar brofiad gwaith?
  Beth oedd dy oriau gwaith?
  Sut deithiest ti yno?
  Pa fath o waith oeddet ti'n wneud?
  Gest ti frêc o gwbl? Beth wnest ti?
  Beth wnest ti amser cinio? Ayyb.

  **Dim newid ers y llynedd!**

- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw drwy ymyrryd yn adeiladol, eto <u>yn ôl yr angen</u>. Mae rhai athrawon yn osgoi holi'n gyfan gwbl hyd yn oed pan fod angen cymorth ar yr ymgeisydd;

- ceisio sicrhau nad yw'r ymgeiswyr yn dibynnu'n **<u>ormodol</u>** ar y cof. Weithiau mae rhai o'r 'areithiau' a ddysgir ar gof yn swnio'n annaturiol iawn gyda chamynganu, cambwysleisio a chamseibiannu aml sy'n rhoi'r argraff nad yw'r ymgeiswyr bob amser yn deall popeth maent yn ei ddweud.

Fodd bynnag, fel y dwedwyd eisoes, bydd mwy o bwyslais ar waith ymchwil yn y cwrs newydd, ac mae'n debygol y bydd ymgeiswyr yn ymdrechu fwyfwy i gofio mwy o ffeithiau ar gof. Cofier y gellir defnyddio'r 30 gair yn y pwyntiau bwled fel cymorth ar gyfer hyn – dyddiadau, ystadegau, enwau ac ati.

**Y Sgwrs Sefyllfa**

Ar y cyfan cyflawnwyd y dasg yma'n foddhaol iawn gan y mwyafrif o ganolfannau. Mae athrawon y canolfannau yma wedi gweithredu ar y sylwadau a roddir yn flynyddol yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiadau unigol. Yn anffodus, fodd bynnag, nid yw'r dasg mor ddilys yn y cwrs yma ag yn Byw'r Gymraeg, yn syml am fod athrawon eraill yn anwybyddu'r canllawiau'n gyfan gwbl fel petaent heb dderbyn unrhyw adroddiad (fel yr awgrymir ar ddiwedd adroddiad y cyflwyniad unigol). Yn Byw'r Gymraeg, wrth gwrs, gosodir y tasgau'n allanol gan CBAC a dylai ymgeiswyr pob canolfan fod yn eu sefyll ar ddyddiad penodedig dan amodau arbennig – yr un amodau i bawb.

Fel yn flynyddol, cafwyd sgyrsiau diddorol iawn yn yr Haen Uwch, gyda'r ymgeiswyr, ar y cyfan, yn cael digon o gyfle i gyflawni'r dasg yn weddol annibynnol. Yn yr achosion yma dim ond sbardun yn awr ac yn y man gafwyd gan yr athrawon – digon i sicrhau parhad y sgyrsiau ac i ddenu ymateb gan yr ymgeisydd pan yn briodol. Fodd bynnag, gyda lleiafrif o ganolfannau, cafwyd gormod o holi gan yr athrawon, hyd yn oed yn yr Haen Uwch, ac weithiau fe aeth y dasg yn gyfres o gwestiynau ac atebion Roedd hyn yn arbennig wir am y tasgau oedd yn ymwneud â byd gwaith – yn arbennig wrth geisio am swydd. Nid cyfweliad, gyda'r ymgeisydd ond yn ateb cyfres o gwestiynau gan yr athro neu'r athrawes, sydd ei angen.

Soniwyd eisoes am y gorholi mewn ambell ganolfan ond ar y pegwn arall gellid, ac yn wir, dylid fod wedi holi mwy - pan oedd angen cymorth ar yr ymgeisydd. Weithiau byddai ymgeisydd yn gadael rhai o gamau'r dasg allan gan eu hanwybyddu'n llwyr. Byddai ymgeisydd arall, er enghraifft, yn rhoi brawddeg yn unig lle disgwylid tair (am y tri marc cynnwys). Mewn achosion o'r fath dylai'r athro/athrawes geisio arwain yr ymgeisydd yn ôl er mwyn ceisio sicrhau bod holl gamau a holl ofynion y dasg yn cael eu cyflawni.

Disodlir y dasg yma yn y cwrs newydd gan sgwrs sefyllfa pâr /grŵp Haen 2 (yr asesiad dan reolaeth). Fe'i cyflawnwyd yn foddhaol iawn gan nifer o ganolfannau a fentrodd i ddilyn y cwrs newydd. Roedd eithriadau, wrth gwrs, ond yr argraff a gafwyd eleni oedd bod y mwyafrif a safodd y dasg eleni wedi ei mwynhau. Gobeithio y bydd hyn yn wir am ymgeiswyr yr holl ganolfannau yn y dyfodol.

**Ymateb Llafar i Ddarllen**

Mae bywyd y dasg yma wedi dirwyn i ben. Ni chredir y bydd llawer yn galaru. Teimlad y mwyafrif oedd mai dim ond ail adrodd y dasg ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen a wnâi. Does dim pwrpas o gwbl mewn rhoddi cyngor ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dyma adroddiad byr.

Dau brif nodwedd y dasg oedd:

- **pwysigrwydd lefel darllenedd y deunydd darllen,**
- **yr angen i ddangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.**

Erbyn y diwedd, roedd tasgau'r mwyafrif llethol o athrawon yn adlewyrchu hyn. Eto'i gyd, roedd ambell ganolfan fel petaent heb weld y canllawiau o gwbl ac heb ddarllen unrhyw adroddiad (fel yn y ddwy dasg arall). Diolch byth mai dim on lleiafrif bychan oeddent.

Fel yn y gorffennol, roedd y deunyddiau darllen yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan, rhai wedi darllen nofelau fel yr hen ffefrynnau 'Madlen', 'Dingo' yn ogystal a 'Love Hearts in Bosnia', 'Y Tro Diwethaf' Bob Eynon, 'Cachgi' Bob Eynon ac ati, Roedd eraill wedi astudio cerddi fel 'Euogrwydd', 'Edrych Mewn Drych', 'Fo a Fi' a 'Gail Bu Farw'. Erthyglau amrywiol oedd fwyaf poblogaidd – ar bobl enwog fel Tom Jones, Duffy, Kathryn Jenkins, Charlotte Church, Nia Roberts ac ati, am ardaloedd fel Caerffili, Caerdydd, Wrecsam a Phatagonia, ac amrywiol bynciau megis bwyta'n iach, ffasiwn, Cwpan pêl-droed y Byd, seibr ofod ac ati.

Fel yn y gorffennol, roedd trin, trafod a chymharu dau lythyr cais yn ddewis sawl canolfan ac, ar y cyfan, roedd y dasg yma'n effeithiol iawn.

Defnyddiwyd deunyddiau gwahaniaethol gan lawer o ganolfannau, ond tan y diwedd roedd lleiafrif yn dal i ddefnyddio'r un deunydd ar gyfer pob disgybl – o A* i G. Fel yn y gorffennol tueddai'r deunyddiau yma i fod yn iawn ar gyfer y disgyblion canolig ond heb fod yn ddigon heriol i gyfiawnhau graddau A ac A* i'r goreuon ar y naill law, ac yn llawer rhy uchelgeisiol i'r gweiniaid ar y llaw arall.

Unwaith eto, roedd natur yr holi yn gwahaniaethu'n fawr. Llwyddodd llawer i drafod yr hyn a ddarllenwyd yn weddol annibynnol gan fynegi safbwynt personol a dangos dealltwriaeth o'r cynnwys ar yr un pryd. Ar y pegwn arall dim ond cyfres o gwestiynau a gafwyd mewn rhai canolfannau gydag atebion byr, parotaidd na roddai gyfle o gwbl i ddangos barn bersonol na llwyr ddealltwriaeth o'r hyn ddarllenwyd. Weithiau, mewn achosion lle roddwyd yr un deunydd darllen i bawb, nid oedd fawr wahaniaeth rhwng perfformiadau'r ymgeiswyr hynny a ddylai, yn ôl y ganolfan, fod wedi cael A*, a'r rhai hynny a dargedwyd ar gyfer graddau F a G.

Fel yn y sgwrs sefyllfa, ni dderbyniwyd copi o'r dasg bob tro. Gwna hyn waith y safonwr allanol yn llawer mwy anodd. Yn y dyfodol, gyda'r cwrs newydd, gobeithir yn fawr y bydd bawb yn cydymffurfio gyda gofyniadau fel danfon sampl gyflawn o ymgeiswyr a danfon y pwyntiau bwled a ddefnyddir gan yr ymgeiswyr yn y gwahanol dasgau.

**YR ARHOLIAD LLAFAR - Y Dasg Pâr/Grŵp**

Mae'r dasg yma'n parhau yn Uned 3 y cwrs newydd ond, oherwydd y gorfodaeth i gydgysylltu'r sgiliau wrth osod tasgau asesu, darnau darllen yw'r unig symbyliadau. Mae'r lluniau a'r deunyddiau fideo fel symbyliadau wedi mynd. Efallai y bydd ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol yn fwy nag ymgeiswyr yr Haen Uwch yn gweld y gwahaniaeth.

Am arholiadau 2011, fel yn Byw'r Gymraeg, dilynwyd y cyfarwyddiadau gweinyddol gan y mwyafrif o ganolfannau gyda phopeth yn drefnus ac yn daclus iawn. Fodd bynnag, cafwyd yr eithriadau blynyddol – yr un canolfannau, mwy neu lai, o flwyddyn i flwyddyn, a'r un ffaeleddau yn ogystal sef, ymhlith eraill:

- cyflwyno samplau'n hwyr;
- cyflwyno samplau anghyflawn;
- heb roddi'r manylion perthnasol ar gloriau'r casetiau /cryno ddisgiau;
- heb roddi rhifau'r ymgeiswyr ar y ffurflenni;
- heb roddi'r marciau cywir ar y ffurflenni;
- heb enwi na chyflwyno ymgeiswyr y pâr /grŵp ar ddechrau'r recordiad;

Danfonir adroddiadau unigol yn flynyddol erbyn hyn ond mae'n ymddangos bod yna ambell ganolfan sy'n eu hanwybyddu'n gyfan gwbl ac felly'n euog o'r un ffaeleddau'n o flwyddyn i flwyddyn.

I fod yn fwy cadarnhaol, roedd y gwaith gweinyddol ac, yn bwysicach, y cynnyrch, yn ganmoladwy iawn yn y mwyafrif o ganolfannau. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn trin a thrafod yn hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen.

Fel arfer, trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau – y gosodiadau, y lluniau a'r symbyliadau fideo bron i gyd. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant.

Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i orddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ail adrodd y bregeth flynyddol, **mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy 4 cam yr Haen Sylfaenol a 3 cham yr Haen Uwch. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.**

Yn Haen Uwch y Cwrs Llawn y pynciau mwyaf poblogaidd oedd 'Ffilmiau' (lluniau Prawf A), 'Yr Ardal' (lluniau Prawf B), 'Operau Sebon' (lluniau Prawf C), y gosodiad 'Rydw i'n edrych ymlaen at y penwythnos' (prawf CH), ac 'Yfed dan oed' (fideo C a CH).
Yn yr Haen Sylfaenol defnyddiwyd yr holl dasgau, mwy neu lai, yn reolaidd iawn. Ar wahân, efallai, i 'Ffasiwn' (Prawf A), 'Hobiau', (Prawf B), 'Mynd i barti', (Prawf C) a 'Problemau' (Prawf CH).

Yn Haen Uwch y Cwrs Byr y pynciau mwyaf poblogaidd oedd 'Rhaglenni Teledu' (lluniau Prawf A), 'Mae fy ardal i'n anhygoel' (gosodiad Prawf B), 'Amser Hamdden' (lluniau Prawf C) a 'Y sinema' (lluniau Prawf CH).

Yn yr Haen Sylfaenol defnyddiwyd yr holl dasgau'n reolaidd iawn.

Braf, unwaith eto, oedd gweld rhai canolfannau'n defnyddio tasgau gwahanol ar gyfer pob un o'r parau/grwpiau (yn y sylfaenol a'r uwch), felly'n defnyddio 5 testun ar gyfer 5 pâr/grŵp.

Mae rhai canolfannau, wrth gwrs, yn defnyddio'r un dasg ar gyfer pawb sy'n awgrymu weithiau eu bod wedi canolbwyntio ar destun y dasg honno. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd sgyrsiau pob grŵp yn dilyn yr un patrwm, gan ddefnyddio'r un eirfa, yr un ymadroddion ayyb oedd yn awgrymu gor-baratoi. Yr unig wahaniaeth weithiau oedd bod y goreuon yn ynganu, yn pwysleisio ac yn seibannu'n well. Weithiau teimlid eu bod wedi dysgu (neu geisio dysgu) sgript. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd ymgeiswyr yn llwyddo i drafod y testun dan sylw am tua hanner munud ac yna'n amlwg yn mynd ati i atgynhyrchu beth roedden nhw wedi'i ddysgu, weithiau heb unrhyw gysylltiad â'r testun gwreiddiol.

I grynhoi, ac i ail-adrodd yr hyn ddywedir yn flynyddol, dyma rhai o'r prif ffaeleddau:

- cafwyd trafod amherthnasol gan rai grwpiau yn arbennig pan oeddent yn crwydro'n ormodol oddi ar y testunau dan sylw i siarad am y testu, (efallai'r unig destun) roeddent wedi ei baratoi;

- collwyd marciau gan rhai ymgeiswyr drwy fethu cyflawni holl gamau'r dasg;

- mewn lleiafrif o ganolfannau ni chafwyd digon o ymyrraeth adeiladol (weithiau dim o gwbl) gan yr athro/athrawes;

- roedd tueddiad i ail adrodd yr un patrymau ieithyddol (e.e. 'rydw i'n hoffi/ dydw i ddim yn hoffi). Ni ddisgwylir llawer mwy na hyn gyda'r gweiniaid, ond gyda goreuon yr Haen Sylfaenol hyd yn oed, disgwylir amrediad o amserau'r ferf ac amrywiaeth o batrymau brawddeg ac ati fel y dangosir yn glir yn y cynlluniau marcio.

- gorddibynnu ar y cof weithiau (roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch efallai yn fwy na'r Sylfaenol).

## Y PRAWF GWRANDO A DEALL

Mae dyddiau'r hen gwrs Cymraeg Ail Iaith yn ogystal â Byw'r Gymraeg wedi dod i ben a hefyd bywyd y Prawf Gwrando a Deall – am nawr, beth bynnag. Trueni mawr oherwydd mae'r gallu i wrando a deall yn sgil allweddol mewn unrhyw iaith.

Piti na allai'r dasg fod wedi mynd i'w bedd ar nodyn mwy hapus Yn ôl yr adborth, teimlid gan nifer o ganolfannau fod y tasgau yn anos eleni am na ganiatawyd seibiannau digonol i'r ymgeiswyr ateb yng nghwestiynau'r newyddion a'r cyfweliad. Yn sicr, ni chafwyd cystal marciau yng nghwestiwn y cyfweliad eleni er i Matthew Rhys siarad yn ddigon clir ac araf. Ni ellir ond ymddiheuro am hyn. Cymerwyd y ffaith i ystyriaeth yn y cyfarfodydd safoni a dyfarnu. Gellir dweud mewn sicrwydd nad ailadroddir yr un peth y flwyddyn nesaf.

### Y Cwrs Llawn

### Cwestiwn 1 (haen sylfaenol)

Cafodd y mwyafrif o ymgeiswyr farciau uchel yn y cwestiwn yma gyda nifer sylweddol yn llwyddo i ennill marciau llawn, mwy neu lai. Fel arfer, cafwyd trafferth gyda'r amser gan rai (eitem 3), yn ogystal â gyda chanlyniad y gêm bêl-droed (eitem 8), ond eitem 5 achosodd y broblem fwyaf gyda llawer yn ticio'r llun o 'torri'r lawnt' yn lle'r un o 'golchi ffenestri'.

### Cwestiwn 2 (haen sylfaenol)

Cafwyd marciau boddhaol yn y cwestiwn yma hefyd – gwell nag yn Byw'r Gymraeg gan fod natur y cwestiwn, ond nid y cynnwys, yn wahanol. Yn Byw'r Gymraeg, wrth gwrs, roedd hanner y marciau am gywirdeb iaith.

Chafwyd bron dim anhawster gydag eitemau 1, 2, 5, 7 a 10. Cafwyd peth anhawster gydag eitem 6 (yr arian), 'cabanau' yn eitem 8 a 'Nos Calan / y flwyddyn newydd' yn eitem 9. Hefyd methodd rhai gyplysu'r 'Nadolig' gyda 'Rhagfyr' ac, yn yr un modd 'wythnos' gyda '7 dydd'. Ond cwestiwn llwyddiannus, ar y cyfan – yn y Cyfredol.

### Cwestiwn 3a (haen sylfaenol) Cwestiwn 1a (haen uwch)

Y cwestiwn grid am gyflwyno arian 'Plant Mewn Angen'. Fel sy'n arferol, roedd cynnwys y cwestiwn hwn yn debyg iawn i'r cwestiwn cyfatebol yn Byw'r Gymraeg ond bod tipyn llai o farciau iaith yn y Cyfredol, wrth gwrs – 3 yn lle 10. Fel canlyniad, roedd y marciau yn y Cyfredol dipyn gwell. Cawsant eu cosbi llai am gamgymeriadau iaith ond eu gwobrwyo'n fwy am ddangos dealltwriaeth – prif bwrpas y Prawf Gwrando a Deall (neu beth ddylai e fod).

Rhai geiriau a achosodd anawsterau oedd 'castell','golchi ffenestri', 'gwisg ffansi', 'archfarchnad', 'neuadd' ac 'egwyl'. Cafwyd problemau gyda'r golofn arian hefyd er mai dim ond 'pum can punt' a 'saith can punt'(heb y treiglad) y gofynnwyd amdanynt. Unwaith eto collwyd marciau am beidio rhoi atebion cyflawn e.e. 'ysgol' yn lle 'Ysgol y Castell', 'hwyl' yn lle 'hwyl yn yr ysgol' 'marathon' yn lle 'marathon snwcer', 'gwisg ffansi' yn lle 'y staff yn gwisgo gwisg ffansi', 'Oliver' yn lle 'perfformio Oliver' ac ati.

### Cwestiwn 3b (haen sylfaenol) Cwestiwn 1b (haen uwch)

Y cwestiwn grid am Gwmni Auropolis. Cafwyd ymatebion boddhaol iawn gan ymgeiswyr yr Haen Uwch, ond, fel y gellid disgwyl, cafodd ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol fwy o drafferth. Teg dweud, fodd bynnag, i'r mwyafrif wneud ymgais i ateb o leiaf rhannau o'r cwestiwn ac roedd y marciau yn y grid yma ychydig yn well na'r grid arall – 3a/1a.

Rhai o'r geiriau a achosodd drafferthion sillafu oedd 'ffidil', 'drymiau', 'i'r un ysgol', 'chwerthin', 'dawnsio', 'traed ysgafn', 'cystadlu' ac ati. Cafwyd problemau gyda'r enwau lleoedd, gan gynnwys Caerdydd, ond ni chosbwyd os oeddent yn ddigon agos. Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, cafwyd hanner atebion e.e. 'ffidil' yn lle 'canu'r ffidil', 'Rhod Gilbert' yn lle 'cael rhaglen fel Rhod Gilbert', 'cystadlu' yn lle 'wedi cystadlu yn Llangollen' ac ati.

**Cwestiwn 2 (haen uwch)**

Cwestiwn y Newyddion. Gwnaeth y mwyafrif o ymgeiswyr yn foddhaol iawn yn y cwestiwn yma er gwaethaf byrder y seibiannau (yn ôl yr adborth). Cafwyd peth anhawster gyda 'miloedd' (eitem 1), 'goryfed' (eitem 2), y frawddeg am 'y seiclwyr o Gymru' (eitem 9) ond efallai cafwyd y camgymeriadau amlaf gydag eitem 4 – 'deuddeg y cant o weithwyr yn colli gwaith achos cefn tost'. Gydag eitem 8 derbyniwyd 2 ateb – blwch 2 am i Chelsea werthu'r chwaraewr i Gaerdydd am £4,000,000 a blwch 3 am i Gaerdydd brynu'r chwaraewr oddi wrth Chelsea.

**Cwestiwn 3 (haen uwch)**

Cyfweliad Matthew Rhys. Fel yn Byw'r Gymraeg, er i rai ymgeiswyr ennill marciau llawn yn y cwestiwn yma, roedd perfformiadau'r mwyafrif yn is nag arfer, yn debygol oherwydd y seibiannau annigonol (yn ôl yr adborth). Eto, oherwydd y marciau iaith, perfformiodd ymgeiswyr y Cyfredol yn well nag ymgeiswyr Byw'r Gymraeg.

Cafwyd rhai camgymeriadau annisgwyl fel rhoddi'r flwyddyn yn hytrach na'r mis fel ateb yng nghwestiwn 1. Yn wir, nid oedd atebion Adran 1 cystal ag arfer, ond roedd nifer o ymgeiswyr fel petaent yn gwella wrth fynd ymlaen. Ymhlith pethau eraill, cafwyd problemau gyda 'plant dall' yn C.2, 'celf' (C.3), 'dim rhaid eistedd tu ôl i ddesg' (C3), 'rhannu tŷ' (C5), 'gwas priodas' (C5), 'ffyddlon' (C6), 'mwy gwyrdd' (C7), 'profiad anhygoel' (C8), 'cyfeillgar' (C9), 'rhan wahanol' (C9), 'trysor gwerthfawr'(C12).

Yma eto cafwyd rhannau o atebion fel 'Elvis Presley' yn lle 'cael rhan Elvis Presley', 'Dylan Thomas' yn lle 'chwarae rhan Dylan Thomas', 'cyfeillgar' yn lle 'y cast yn gyfeillgar' a 'trysor gwerthfawr' yn lle 'mae'r Gymraeg yn drysor gwerthfawr'. Fel yr oeddent, doedden nhw ddim yn gwneud unrhyw synnwyr.

**Y Cwrs Byr**

Ar wahân i gwestiwn cyntaf yr Haen Sylfaenol, rhannau o gwestiynau'r Cwrs Llawn a gafwyd ac felly roedd y camgymeriadau a'r ffaeleddau'n debyg iawn. Nid oes pwrpas mewn bod yn ailadroddus a rhoi adroddiad fesul cwestiwn fel gyda'r Cwrs Llawn. Yn y cwestiwn cyntaf hwnnw roedd y perfformiadau'n amrywio'n fawr. Cafwyd marciau llawn gan nifer, ond roedd yna eraill a gawsant anawsterau gyda phob eitem. Cafwyd problemau gyda'r amser (hanner awr wedi wyth) gan nifer. Rhoddodd 'gwaith cartref Hanes' broblemau i eraill a chafodd ychydig hi'n amhosibl i ddeall '16 oed'.

**Mae'r arholiad Gwrando a Deall wedi mynd ond mae llawer iawn o ddeunyddiau ar ôl. Gobeithio'n fawr y bydd canolfannau'n dal i ddefnyddio'r hen gasetiau a chryno ddisgiau yn eu dysgu. Mae gwrando a deall yn sgil llawer rhy bwysig i gael ei hesgeuluso. Hwyrach y ceir ei hasesu'n allanol eto ryw ddydd. Beth bynnag, diolch i'r athrawon am bob cydweithrediad dros y blynyddoedd ac hefyd i'r tîm o safonwyr cydwybodol fu mor drwyadl yn eu gwaith.**

**Adroddiad Cymraeg Ail lAITH 2011**

Hwn yw'r tro olaf i'r maes llafur hwn gael ei arholi ac felly bydd yr adroddiad yn fwy cryno nag arfer. Rwyf yn sicr y bydd y dulliau a ddefnyddiwyd i asesu'r gwaith yn ddefnyddiol ar gyfer asesiadau a chynlluniau dysgu yn y dyfodol.

**Gwaith Cwrs Ysgrifennu ac Ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig.**

Mae'r athrawon yn gyfarwydd iawn â'r dulliau asesu erbyn hyn ac eleni cafwyd gwaith graenus a symbylus. Yn sicr mae safon y gwaith ysgrifenedig yn gwella bob blwyddyn ac mae'r athrawon yn dewis ffurfiau a chyd destunau addas ar gyfer y gwahanol haenau o alluoedd yn eu hysgolion. Mae lle o hyd i wella ar y gwaith ymateb i ddarllen trwy sicrhau fod y gwaith yn asesu dealltwriaeth yn drylwyr.

**Arholiad Cwrs Llawn Darllen ac Ysgrifennu**

**Cwestiwn 1 (i)**

Mae'r cwestiwn hwn yn asesu dealltwriaeth o eirfa ac ymadroddion sylfaenol megis amser, rhifau, arian, dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn ayyb. Mae'r eirfa hon yn ymddangos mewn paragraffau sylfaenol ar gyd destunau megis yr ysgol, yr ardal, amser hamdden, y teulu ayyb. Cafwyd ymateb da i'r dasg hon eleni eto a thystiolaeth bod yr ymgeiswyr yn gwirio eu gwaith yn ddeallus.

**Cwestiwn 1 (ii)**

Darllen e-bost byr oedd y dasg eleni a'r geiriau gofynnol Pryd? ac O Ble? achosodd fwyaf o drafferth i'r gweiniaid**.** Ar y cyfan llwyddodd y mwyafrif llethol i ymateb yn gyfathrebol i'r e-bost.

**Cwestiwn 2**

(i) Mae'r mwyafrif llethol yn gallu ysgrifennu paragraff ar destunau cyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'n bwysig bod y gweiniaid yn cael digon o ymarfer ar hyn oherwydd mae perfformiad da yma yn rhoi hyder iddynt ar gyfer gweddill y papur.

(ii) Mae'r ymgeiswyr bellach yn eithaf llwyddiannus yn ymateb i dasg o'r fath sy'n gofyn am ysgrifennu llythyr byr, nodyn, e-bost neu ddisgrifiad. Gan fod y gofynion i gyd yn Saesneg maent yn sicrhau eu bod wedi cyflawni pob adran trwy roi tic wrth ochr y gofynion wrth eu gwneud.

**Cwestiwn 3**

Cafwyd ymateb da i'r adran hon gan fwyafrif yr ymgeiswyr. Ar y cyfan cafwyd ymatebion llwyddiannus i'r tair adran gyntaf - y bedwaredd adran oedd yn gwahaniaethu rhwng y goreuon a'r canolig. Mae rhai ymgeiswyr yn colli marciau yn ddianghenraid yn yr ail ran trwy beidio ag ysgrifennu mewn brawddegau llawn. Dylai athrawon hefyd sicrhau fod y disgyblion yn gallu ysgrifennu brawddegau syml yn y 3ydd person.
e.e. Mae Andrew yn hoffi mynd i'r sinema ar nos Sadwrn ac mae Eleri yn hoffi bowlio deg.

**Cwestiwn 4**

I ennill marciau da yn y dasg hon sef ysgrifennu erthygl fer edrychir am gynnwys diddorol sy'n rhoi manylion am y tri phwynt. Er mwyn cael y marciau uchaf bydd ymgeiswyr yn ymestyn rhai o'r pwyntiau ac yn defnyddio cystrawen sylfaenol gywir ar y cyfan.

**Cwestiwn 5 (haen sylfaenol) Cwestiwn 1 (haen uwch)**

Bellach mae llawer o'r ymgeiswyr wedi ymgyfarwyddo â gofynion rhan gyntaf y dasg hon. Maent yn sylweddoli bod y proffil yn gyffredinol yn dilyn rhediad y sgwrs. Fodd bynnag, mae angen talu sylw manwl i'r gwahanol ffeithiau yn y darnau er mwyn ennill marciau da. Mae'n amlwg fod y cyfweliad ag Aaron Ramsey wedi apelio at yr ymgeiswyr i gyd oherwydd ymdrechodd y mwyafrif i gwblhau'r dasg gyntaf.

Mae'r ail ran yn achosi trafferth i rai ymgeiswyr ac maent yn colli marciau yn ddianghenraid. Rhaid i'r ymgeiswyr i gyd:

(i) dalu sylw manwl i'r hyn sy'n gwneud cwestiwn yn ddilys yn yr ail ran

(ii) sicrhau eu bod yn gallu ysgrifennu cwestiwn syml yn gywir

(iii) adolygu'r ffurf 'ydy' yn y cwestiwn e.e. Beth ydy .. ? Pwy ydy ...?

**Cwestiwn 6 (haen sylfaenol) Cwestiwn 2 (haen uwch)**

Ymatebodd yr ymgeiswyr canolig ac uwch eu gallu yn dda i'r cwestiwn hwn eleni eto. Mae'n galondid gweld bod yr ymgeiswyr hyn yn gallu ymateb yn gyfathrebol gywir i'r testunau cyfoes hyn. Roedd apêl 'siopa ar y we' a 'hoff wefannau' yn gwbl amlwg ac mae'n amlwg fod yr athrawon Cymraeg yn trwytho'r disgyblion yn y testunau cyfoes diddorol hyn. Mae angen tynnu sylw at ddefnydd pwrpasol o amser y ferf o hyd.

**Cwestiwn 3 (haen uwch)**

Prif wendid yr ymgeiswyr is eu gallu yw eu bod yn ceisio copïo adrannau cyfan o'r llythyrau yn lle dewis y wybodaeth berthnasol o'r darn. Rhaid i'r ymgeiswyr ddethol y wybodaeth gywir er mwyn ennill y marciau. Mae tystiolaeth hefyd bod rhai ymgeiswyr da yn rhuthro'r cwestiwn hwn ac yn gwneud camgymeriadau o'r herwydd e.e. Ddim yn darllen y gosodiad yn ddigon manwl.

**Cwestiwn 4**

Yr adran ar ysmygu ac yfed alcohol dan oed oedd y mwyaf poblogaidd o ddigon a chafwyd erthyglau rhagorol. Roedd tystiolaeth o baratoi gofalus o ran geirfa a chystrawen ac roedd gwaith y goreuon o safon uchel iawn.

Cafwyd traethodau diddorol ar y tri thestun arall hefyd ac mae'n braf gweld bod gan bobl ifanc farn bendant ar destunau pwysig y gymdeithas gyfoes.

**Cwestiwn 5**

Yn ôl yr arholwyr, apeliodd yr erthygl hon at drwch yr ymgeiswyr oherwydd ei bod yn ymwneud a dau destun sy o ddiddordeb i bobl ifanc sef ffilmiau a chwaraeon. Llwyddodd y goreuon i ysgrifennu paragraff digon cynhwysfawr a chywir i berswadio cynhyrchydd ffilmiau fod Julian Lewis Jones yn actor da a phrofiadol.

**Cwestiwn 6**

Mae'r testunau hyn yn heriol a'r goreuon yn unig lwyddodd i wneud cyfiawnder â'r testunau. (a) oedd y testun mwyaf poblogaidd ac ar y cyfan cafwyd ymdriniaeth lawn a hyderus gan y goreuon. Gwendid rhai ymatebion i (b) oedd y duedd i ysgrifennu ar destunau roeddynt wedi paratoi o flaen llaw ac yna cyfeirio at y testun yn y frawddeg olaf yn unig.

## Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr

Ar y cyfan cafwyd ymatebion digon da i'r ddau bapur yn y Cwrs Byr ond fel y llynedd roedd tua 10% heb ysgrifennu unrhyw beth o gwbl yn yr adrannau ysgrifennu. Mae hyn yn siom aruthrol nid yn unig i'r arholwyr ond hefyd i'w hathrawon.

### Arholiad Darllen ac Ysgrifennu

**Cwestiwn 1 (i)**

Mae'r dasg asesu di-iaith hon yn apelio at yr ymgeiswyr ac fel arfer cafwyd ymateb da. Roedd rhai yn ansicr o'r amser a'r gair ymlacio yng nghwestiynau 5 a 6.

**Cwestiwn 1 (ii)**

Eleni eto, roedd hi'n amlwg nad oedd ymgeiswyr gwan yn deall y cwestiynau Pryd? Ac At beth? Mae llawer o ymgeiswyr gwan yn anwybyddu (b) ac o'r herwydd yn colli 2 farc cymharol hawdd.

**Cwestiwn 2**

Llwyddodd tua 80% o'r rhai gwblhaodd y cwestiwn hwn i gael 15 o farciau neu fwy. Mae hyn yn galonogol iawn ac yn brawf fod disgyblion yr haen hon yn gallu ysgrifennu ar destunau cyfarwydd syml yn llwyddiannus.

**Cwestiwn 3 (haen sylfaenol) Cwestiwn 1 (haen uwch)**

Cafwyd ymateb da i'r dasg o ddarllen llythyr ar gyd-destunau cyfarwydd. Mae angen darllen y blog yn ofalus i ddod o hyd i'r atebion cywir. Eto roedd cwestiwn Pryd? yn achosi trafferth.

Mae'r ymateb i'r ail ran (ii) wedi gwella a chafwyd ymatebion synhwyrol a chywir gan y goreuon, megis:

Dw i'n hoffi Robbie Williams hefyd mae e'n dda.

Mae CD Robbie Willams gyda fi a dw i'n hoffi fe.

**Cwestiwn 4 (haen sylfaenol) Cwestiwn 2 (hen uwch)**

I gyflawni'r dasg hon yn llwyddiannus edrychir am ymdriniaeth ddiddorol, gweddol uchelgeisiol a chynhwysfawr o'r 3 pwynt. Edrychir am gystrawen gywir ac adnoddau ieithyddol sy'n galluogi'r ymgeisydd i fod yn weddol uchelgeisiol o ran disgrifiadau, syniadau a barn.

Yn sicr cafwyd hynny gan nifer helaeth yn yr haen uwch. Camgymeriadau cystrawennol sylfaenol oedd gwendid y gweiniaid yn yr Haen Sylfaenol yn arbennig y defnydd o 'ydy'.

**Cwestiwn 3 (haen uwch)**

Eleni eto cafwyd ymatebion da iawn i'r dasg hon. Fel y dywedwyd o'r blaen, mae'n amlwg fod gan y goreuon y gallu i ymdopi'n llwyddiannus â'r cwrs llawn ac mae'n siomedig nad ydynt yn cael y cyfle.

Dylai'r ymgeiswyr  is eu gallu yn yr haen hon ddarllen y cwestiynau yn fwy gofalus gan geisio yn y lle cyntaf ddod o hyd i'r adran yn y darn darllen sy'n delio â'r pwynt.  Wedyn gallant edrych am y manylion e.e. C4.  Mae 4 marc am atebion eithaf syml ar ôl dod o hyd i'r wybodaeth. Gall yr ymgeiswyr hyn wella eu safon eto trwy ymarfer ysgrifennu brawddegau sy'n mynegi barn yn gryno ac yn gywir.

**Cwestiwn 4 (haen uwch)**

Mae'r goreuon yn yr haen hon yn ysgrifennu'n hyderus a diddorol.  (b) oedd y testun mwyaf poblogaidd a chafwyd syniadau da am bethau diddorol ac addysgiadol  y gallai pobl ifanc wneud gyda'r rhyngrwyd.  Cafwyd ymatebion diddorol i (ch) hefyd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk